# Protocol codi baneri ym Mhrifysgol Aberystwyth

**Corff Cymeradwyo:** Gweithrediaeth y Brifysgol

**Dyddiad Cymeradwyo**: 16 Rhagfyr 2025

**Perchennog y polisi:** Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor

**Cyswllt y polisi:** Jean A Jones, jsj@aber.ac.uk / 01970 62 2101

**Statws y polisi:** Cymeradwywyd

**Fersiwn:** 2.3

**Dyddiad yr adolygiad nesaf:** Medi 2027

# Protocol codi baneri ym Mhrifysgol Aberystwyth

1. Diben y protocol

   1. Diben y protocol hwn yw:

      - amlinellu'r trefniadau arferol ar gyfer codi baneri;
      - egluro'r weithdrefn briodol pe bai cais i godi baner wadd benodol yn dod i law;
      - egluro'r weithdrefn ar gyfer codi baneri ar eu hanner.

   2. Mae'r protocol hwn yn cyfeirio at y cyhoeddiad *Flying Flags in the United Kingdom, A Guide to Britain's Flag Protocol*, sydd ar gael yma https://www.flaginstitute.org/pdfs/Flying_Flags_in_the_United_Kingdom.pdf. Mae copïau ar gael hefyd gan Bennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor.

2. Y trefniadau arferol

Mae gan y Brifysgol ddau bolyn baner ger mynedfa Campws Penglais. Codir y Ddraig Goch ar y polyn baner sydd agosaf at yr A487, a'r Faner EcoGampws ar yr ail bolyn baner.

Mae gan y Brifysgol un polyn baner ar Gampws Gogerddan y tu allan i Adeilad yr Arglwydd Milford. Bydd Adran 3.3 (isod) yn berthnasol i'r polyn baner hwn.

3. Amrywiadau

   1. Digwyddiadau / Diwrnodau Blynyddol

Mae rhai trefniadau sefydledig ar waith o ran codi baneri gwahanol ar ail bolyn baner y Brifysgol (yn lle'r Faner EcoGampws), sef:

| Digwyddiad/Diwrnod Blynyddol | Dyddiad | Baner |
|---|---|---|
| Mis Hanes LHDT+ | Chwefror | Baner yr Enfys |
| Dydd Gŵyl Dewi | 01 Mawrth | Baner Dewi Sant |
| Diwrnod y Gymanwlad | 14 Mawrth | Baner y Gymanwlad |
| Diwrnod Ewrop | 09 Mai | Baner yr Undeb Ewropeaidd |
| Dathliad Swyddogol Penblwydd Ei Fawrhydi y Brenin | Ail ddydd Sadwrn ym Mehefin | Baner yr Undeb |
| Wythnos y Lluoedd Arfog | Yr wythnos cyn dydd Sadwrn olaf mis Mehefin | Baner y Lluoedd Arfog |
| Diwrnod Owain Glyndŵr | 16 Medi | Baner Owain Glyndŵr |
| Sul y Cofio<br><br>Diwrnod y Cofio | Ail ddydd Sul mis Tachwedd<br>11 Tachwedd | Baner yr Undeb |

| | | |
|---|---|---|
| Diwrnod y Cofio Trawsryweddol | 20 Tachwedd | Baner Balchder Trawsryweddol |

2. Ymweliadau Swyddogol

Codir baneri penodol ar yr ail bolyn baner pan fydd y Brifysgol yn croesawu ymwelwyr penodol:

1. Codir Baner yr Undeb ar yr ail bolyn baner (yn lle'r Faner EcoGampws) pan fydd aelodau o deulu Brenhinol Prydain neu ymwelwyr eraill o bwys o'r DU yn ymweld â'r Brifysgol ar gais yr Is-Ganghellor (neu awdurdod dirprwyedig).

2. Codir baneri cenedlaethol ymwelwyr eraill o bwys ar yr ail bolyn baner ar gais yr Is-Ganghellor (neu awdurdod dirprwyedig). Bydd angen wyth wythnos o rybudd os oes angen prynu baneri.

3. Baneri ar eu hanner

1. Ar adegau o alaru cenedlaethol, megis marwolaeth aelod uwch o deulu Brenhinol Prydain, codir Baner yr Undeb ar yr ail bolyn baner. Codir pob un o'r baneri ar eu hanner ar y ddau bolyn baner yn unol â chanllawiau *Flying Flags in the United Kingdom, A Guide to Britain's Flag Protocol*.

2. Ar yr adegau canlynol, yn ôl disgresiwn yr Is-Ganghellor, gellir codi pob un o'r baneri ar eu hanner ar y ddau bolyn baner, ac ar Gampws Gogerddan:

   1. Yn dilyn marwolaeth Swyddog presennol neu blaenorol o'r Brifysgol (Canghellor, Dirprwy-Ganghellor, Cadeirydd y Cyngor, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor, Is-Ganghellor);

   2. Yn dilyn marwolaeth aelod staff neu fyfyriwr presennol y Brifysgol; neu

   3. Mewn achos o alaru lleol.

3. Dylid codi baneri ar eu hanner tua dwy ran o dair o'r ffordd i fyny rhwng pen uchaf y polyn baner a'r gwaelod, gydag o leiaf uchder y faner rhwng ymyl uchaf y faner a phen uchaf y polyn baner.

4. Amrywio'r weithdrefn

1. Dylid cyfeirio ceisiadau i amrywio'r baneri a godir at Swyddfa'r Is-Ganghellor ac yn ddelfrydol dylid eu cyflwyno o leiaf ddau fis ymlaen llaw. Dylai pob cais gynnwys manylion ynghylch pa faner sydd i'w chodi, pam ei bod yn briodol i'r Brifysgol godi'r faner wadd ac ar ba ddyddiad(au) y caiff y faner wadd ei chodi. Yr Is-Ganghellor fydd yn penderfynu'n derfynol a gaiff y faner ei chodi ai peidio.

2. Y Gyfadran neu'r Adran sy'n cyflwyno'r cais fydd yn darparu'r faner ac yn talu'r costau, ac fe'i codir ar y polyn baner ger mynedfa Campws Penglais. Rhaid i bob baner fodloni gofynion y Brifysgol o ran maint safonol ac ansawdd.

3. Codir pob baner yn unol â'r protocolau a amlinellir yn *Flying Flags in the United Kingdom, A Guide to Britain's Flag Protocol*, a rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am godi baneri sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r canllaw hwn.

4. Rhaid i bob baner a godir gan y Brifysgol fod yn lân ac mewn cyflwr da. Bydd y tîm Diogelwch yn cadw golwg ar gyflwr y baneri a phrynir baneri newydd yn eu lle yn ôl y galw er mwyn sicrhau bod ymrwymiadau rheolaidd yn cael eu bodloni. Rhaid i bob baner fodloni gofynion y Brifysgol o ran maint safonol ac ansawdd.